59. Rhos Fullbrook

Ger Cors Caron, Ceredigion

Cyfeiriadau Grid	Map Explorer 199 yr A.O. Llanbedr Pont Steffan. Prif fynedfa: SN668626; Canolfan y safle: SN666628
Statws	Wedi'i ddynodi'n SoDdGA.
Daliadaeth	Prynwyd rhydd-ddaliadaeth y warchodfa yn 1983 gyda chymorth grant gan NCC a CFEN.
Maint	2.2 he (5.9 erw).
Lleoliad a Nodiadau Mynediad	Dylech adael yr A485 o Dregaron i Aberystwyth yn SN668616 a dilyn y ffordd fechan heibio Fferm Maesglas a Melin Fullbrook. Mae camfa fynediad y warchodfa ar y chwith, yn union wedi croesi nant y felin. Nid oes modd defnyddio cadeiriau olwyn ar y safle.
Cludiant cyhoeddus	Mae llwybr y T21 o Aberystwyth i Dregaron yn mynd heibio i'r fynedfa i'r ffordd fechan sy'n eich arwain ar hyd y 0.5 km sy'n weddill ar droed.

Disgrifiad: Mae'r warchodfa'n cynnwys ardal o laswelltir heb ei wella sy'n cynnig cyfoeth o flodau a llaciau niferus, sy'n eithaf cyfoethog eu sylfaen. Mae ardal o gors lifwaddodol yn ffinio â Nant Ty'n-y-swydd a cheir ardal fechan o goetir a phrysgwydd llawn cyfoeth o rywogaethau.

Mae'r warchodfa'n gartref i o leiaf 100 o blanhigion yn blodeuo, yn cynnwys Cribau San Ffraid (7-10), Llafn y Bladur (6-8), Bara'r Cythraul (7-9), Banadl Aur (6-10), Tegeirian Brith y Rhos (5-7), Coedfrwyn Lluosben (5-7), llu o Degeirianau Llydanwyrdd Bach (6-7), Cribellau Cochion (5-9), Eithin (5-7), Cnau Daear (5-7), Brwyn Blodeufain (6-10) a Thresgl (4-9). Mae'r llaciau gwlyb yn llawn hesg – yn bennaf, Hesg Carnasiwn (5-7), Swp-Hesg y Fawnog (5-10), Chwein-Hesg (5-8), Hesg Seraidd (6-9) a Hesg Tywyll-Felyn (6-8), ynghyd â Mwsoglau Cors. Ceir hefyd Rug Croesddail (6-10) a Saethbennig y Gors (6-9), a rhywogaethau pryfysol, sef Chwys yr Haul (6-8) a Thafod y Gors (5-8).

Mae llu o löynnod byw a nifer o weision y neidr ar hyd y nant yn ychwanegu diddordeb at y safle, a cheir digon o ffwng yn y glaswelltir a'r coetir yn ystod yr hydref. Mae llygod bengron y dŵr yn defnyddio'r nant llawn llystyfiant.

rhos fullbrook2 1 7/7/06 3:54:17 pm



Nodau Rheoli: Mae cael ceffylau i bori yma'n cadw'r glaswellt yn agored i rywogaethau a bryoffytau blynyddol. Drwy reoli'r prysgwydd, mae ehangder y glaswelltir yn cael ei warchod.

Amser da i ymweld	
Mai - Gorffennaf	Adar yn magu a glöynnod byw
Mehefin - Hydref	Planhigion yn blodeuo
Drwy gydol y flwyddyn	Adar yr arfordir a gwylio'r môr

rhos fullbrook2 2 7/7/06 3:54:18 pm